LLEWYRCHED FELLY EICH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser Gorffennaf/Awst 2024 Cyfrol 95 Rhif 4




Croesbwyth gan Eira Jones.

NEWYDDION

## Cydymdeimlad

Tristwch mawr i ni fel eglwys oedd clywed am farwolaeth Annick Moseley ar 23ain o Fehefin. Cydymdeimlwn gyda'r teulu yn eu colled yn enwedig Elwyn, Philippe, Rhodri a Carys. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel y Wenallt, Amlosgfa Thornhill, fore dydd Mercher, 10fed o Orffennaf.

## Mis Sabothol

Dymunwyd yn dda i Alun ddiwedd Mehefin ar gyfer ei fis Sabothol ychwanegol yn ystod Gorffennaf. Penderfynwyd nad oedd Alun wedi cael cyfnod Sabothol llawn o fis Medi i ddiwedd Tachwedd llynedd oherwydd ei fod wedi gorfod bugeilio o ganlyniad i sawl profedigaeth a chynnal angladdau. Edrychwn ymlaen i'w ddychweliad fis Medi a'r adrodd nôl gawn am ei brofiadau y tro hwn. Hyderwn y bydd ef a Vikki yn mwynhau eu mis o seibiant arferol fis Awst.

## Cleifion

Rydym yn cofio'n dyner am y rhai sydd wedi derbyn triniaeth neu sydd dan ofal meddygol. Cofiwn am ein cyd-aelodau sy'n gaeth i'w cartrefi neu gartref gofal: Delor Wedlake, Mair Evans a Rhian Ruddock. Cofiwch weddïo drostynt, neu godi'r ffôn am sgwrs. Os gwyddoch am unrhyw un o'n haelodau sy'n sâl neu'n isel eu hysbryd, rhowch wybod i un o'r diaconiaid yn ddiymdroi.

## Bocs gweddi

Mae bocs ym mhob oedfa er mwyn ichi nodi unrhyw destun gweddi sydd ar eich meddwl. Hefyd mae grŵp WattsApp. Os hoffech fod yn rhan o'r grŵp rhowch wybod i Alun.

## Cyfarfodydd Blynyddol

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Blynyddol yr Annibynwyr Cymraeg o 11eg i'r 13eg o Orffennaf ar gampws Prifysgol De Cymru, Trefforest, Pontypridd. Y rhai fu'n arwain y gwahanol gyfarfodydd oedd Susan Derber, Llywydd Cyngor Eglwysi'r Byd, Ron Williams, Delwyn Siôn, Richard Huws, a Jeff Williams.

## Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Cian Llŷr, mab Lisa Williams ar ennill Anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Athroniaeth.

Llongyfarchiadau hefyd i Will Tudur-Eveleigh ar dderbyn gradd BSc. Pob dymuniad da i'r ddau i'r dyfodol.

## Ffynhonnau Byw

Daeth blwyddyn elusen Ffynhonnau Byw, er budd Colombia, i ben yng nghyfarfod Undeb yr Annibynwyr ym Mhontypridd ar 11eg i'r 13eg o Orffennaf. Llwyddwyd i godi £3500 gennym drwy weithgareddau a chyfraniadau. Swm digon teilwng. Diolch i bawb. Os na chawsoch gyfle i gyfrannu, neu bod gennych gadw mi gei ar gyfer yr elusen, mynnwch air ag Eilir.

**Teyrnged** | *Rosaline Bowen 1934 - 2024*

Ganed Rosaline 19eg Medi ym Mhontyberem ym 1934. Hi oedd y 3ydd o 7 o blant i Jack a Margaret Daniels. Bu farw ei mam pan oedd Rosaline yn ddim ond 9 oed.

Pan yn 17 aeth i Old Church Hospital Romford, Essex, i hyfforddi fel nyrs gan gymhwyso ym 1955. Bu’n gweithio yn Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru ac yna yn St Thomas’s Hospital, Llundain.

Cyfarfu Rosaline ac Arthur mewn dawns yn neuadd bentref, Pontyberem ac fe briodasant ym mis Mawrth 1958. Gweithiodd am gyfnod fel Ymwelydd Iechyd yn Tottenham, cyn symud yma i fyw ym 1962 ar Heol Coed Cae yn yr Eglwysnewydd. Yma y ganwyd Helen Siân a Dafydd Wyn oedd yn gannwyll llygaid eu mam a’u tad.

Roedd Rosaline yn mwyhau canu. Canai yn y capel ym Mhontyberem a hoffai ganu mewn corau a mynd i gyngherddau gyda’r plant ac wrth gwrs bu’n aelodau o Gôr Aelwyd Caerdydd.

Yn Ebeneser gwelwyd ei natur greadigol yn dod i’r fei, yn enwedig gyda gosod blodau. Cyfrannodd cymaint i’n bywyd trwy drefnu rota blodau o Sul i Sul. Gwnâi osodiadau rhyfeddol ar gyfer digwyddiadau arbennig, fel angladdau, priodasau a’r Pasg. Pob Nadolig roedd hi ac Arthur yn gyfrifol am osod y goeden Nadolig fawr yn y capel. Rosaline wnâi'r dorch ar gyfer y canhwyllau Adfent.

Roedd yn aelod o Gymdeithas y Chwiorydd, criw arbennig o wragedd a gyfrannodd gymaint at fywyd yr eglwys. Cymerai ran yn yr oedfaon a’r cyflwyniadau dramatig o dan gyfarwyddyd Freda Evans. Mawr oedd ei chyfraniad a diolchwn i Dduw amdani.

Gofalodd am Arthur yn dilyn ei strôc yn 2008 cyn iddi hi ei hun gael ei tharo â Dementia. Wrth ffarwelio gyda Rosaline gwnawn hynny gyda ffydd yn Iesu Grist yr Atgyfodiad a’r bywyd. (Ioan 11:25-26)

Ar ddiwedd yr oedfa gymun (02/06) pryd y coffawyd Rosaline, cyflwynodd Helen sbrigyn o rhosmari, er cof amdani, i bawb oedd yn bresennol. Cydymdeimlwn gyda hi a’i brawd Dafydd Wyn yn eu colled a’u hiraeth.

**Teyrnged** | *Annick Moseley 1944 - 2024*

Cynhaliwyd angladd Annick Moseley yn Amlosgfa Thornhill ar ddydd Mercher y 10fed o Orffennaf. Cymerwyd rhan gan Philippe, Rhodri a Carys Moseley a thalwyd teyrnged fer iddi gan Alun Tudur. Dyma grynodeb o'r deyrnged.

Braint i mi yw dweud ychydig eiriau fel teyrnged i Annick. Bydd Philippe yn ymhelaethu ac yn ychwanegu at yr hyn y byddaf i yn ei ddweud mewn ychydig funudau. Ganed Annick yn Algeria ym 1944 ond fe symudodd y teulu i Ffrainc pan oedd yn 18 oed. Daeth o Baris i Aberhonddu, fel rhan o'i chwrs gradd Saesneg ym Mhrifysgol Sorbonne, i weithio fel "assistant" mewn ysgol leol. Ei bwriad oedd cryfhau ei Saesneg gan ddysgu Ffrangeg i'r disgyblion. Ond tarfwyd ar ei bwriadau. Arhosai yng nghartref cwpl oedd yn aelodau o gapel Annibynwyr y Plough. Ar y pryd roedd y Parch. Luther Moseley yn weinidog. Yn fuan cyfarfu Annick a gŵr ifanc golygus - Mab y Mans - o'r enw Elwyn ac fe syrthiodd y ddau mewn cariad. Mae lluniau o'r ddau ohonynt yn y cyfnod hwn yn werth eu gweld. Roeddent yn olygus, ffasiynol, "suave" ac Ewropeaidd. Priodasant ym 1968 yng nghapel y Plough a setlo yn Llandaf, Caerdydd. Yma ganed, Rhodri, Philippe a Carys. Roedd yn fam gariadus a chydwybodol. Gwnaeth yn siŵr eich bod yn aml ieithog, yn siarad Ffrangeg, Cymraeg a Saesneg yn rhugl. Roedd eich mam yn meddwl y byd ohonoch ac yn ymfalchïo yn eich cyraeddiadau. Roedd ei theulu a'i theulu estynedig yn bwysig iawn iddi a chyfarfod a chymdeithasu fel teulu yn rhan hanfodol o'i bywyd. D'oedd dim yn dod a mwy o lawenydd iddi na bod yn eich cwmni ac yng nghwmni'r teulu. Roedd hefyd wrth ei bodd fel mam-gu i Federico, Sara, Elena ac Awen.

Daeth y teulu yn aelodau o eglwys Ebeneser, ac rydym mor falch fod yr Arglwydd wedi eich harwain atom ni, oherwydd mae eich cyfeillgarwch wedi bod yn gyfrwng bendith i ni fel cynulleidfa. Un digwyddiad sy'n dod i'r cof oedd noson Ffrengig a drefnwyd er mwyn codi arian tuag at ein helusen. Roedd Annick wrth y llyw yn cyfarwyddo a chyd-drefnu. Rhoddodd gyfarwyddiad manwl i bawb, a ryseitiau er mwyn i ni goginio. Cawson gawl nionod a Galette des rois. Roedd diwylliant Ffrainc yn agos iawn at ei chalon. Roedd hi'n noson arbennig, llawn hwyl a sbort, gydag Annick yn ei chynefin yn arwain y plant i ganu caneuon Ffrengig. Y noson honno gwelsom nodweddion a chymeriad Annick yn dod i'r amlwg. Roedd yn drefnydd manwl a deheuig, yn wraig ddiwylliedig llawn egni. Roedd yn hoff o hwyl a chymdeithasu ac yn llawn o'r "joie de vivre".

Rhoddwn ddiolch i Dduw am ei bywyd ac am y bendithion a ddaeth i'n rhan o'i hadnabod. Ac wrth ddiolch a ffarwelio gyda hi gwnawn hynny yn ymwybodol o addewid mawr yr Arglwydd Iesu. Nid marwolaeth yw'r diwedd, oherwydd mae Iesu wedi trechu marwolaeth ac y mae pob un sy'n credu ynddo yn cael bywyd tragwyddol y tu hwnt i'r bedd. Dywedodd Iesu,

Dywedodd Iesu wrthi, "Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth. (Ioan 11:25-27)

---




Roedd o leiaf dau fwriad gan aelodau Ebeneser, Caerdydd, wrth iddynt gynnal digwyddiad Drws Agored yn ddiweddar yng nghapel Methodistiaid yr Eglwys Newydd. .

**Ymgysylltu**

Y bwriad cyntaf oedd ymgysylltu yn well gyda'r gymuned yn y pentref, ac yn wir gyda Chymry Cymraeg ar hyd a lled y ddinas. Y mae hon yn broses sy'n datblygu ac yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Gwerthwyd capel eglwys Ebeneser, oedd yng nghanol dinas Caerdydd, 12 mlynedd yn ôl, a bellach rydym yn cynnal ein gweithgareddau mewn tri lleoliad. Y mae gennym bresenoldeb wythnosol yn yr Eglwys Newydd ac yn raddol rydym yn dod fwyfwy rhan o'r gymuned. E.e., Yn ystod mis Mehefin fe ddosbarthwyd 10 mil o daflenni - a gynlluniwyd gan Carys Mair Jones - yn hysbysebu ein gweithgareddau. Roedd y Drws Agored yn rhan o'r datblygiad hwn.

**Codi Arian**

Yr ail fwriad oedd codi arian tuag at ddwy elusen, sef Money for Madagascar a Ffynhonnau Byw, Undeb yr Annibynwyr. Y llynedd bu farw un o hoelion wyth Ebeneser, sef yr annwyl Eira Jones. Tros y degawdau fe fu hi yn ddiwyd yn cynhyrchu cannoedd o frodweithiau a chroesbwythi cain o arddulliau amrywiol. Roedd rhai ohonynt yn dynodi achlysuron arbennig, eraill yn adnodau, eraill yn bobl, ac eraill drachefn yn wrthrychau neu'n olygfeydd. Yn ystod y Drws Agored gwerthwyd y crefftweithiau hyn, a chan y bu Eira ym Madagascar gyda'r genhades Gwyneth Evans, pa elusen fwy cymwys i gyfrannu tuag ati na Money for Madagascar.

Diolch i bawb o'r aelodau fu wrthi'n ddiwyd yn pobi cacennau, gweini paneidiau a gosod y byrddau a braf oedd cael croesawu ymwelwyr i'n plith. Edrychwn ymlaen ar y Drws Agored nesaf. *(Lluniau ar y dudalen gefn)*

## YSGOL HAF Y WEINIDOGAETH IACHAU MEHEFIN 2024

Ers 1954 mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi trefnu Ysgol Haf y Weinidogaeth Iachau yn flynyddol. Ers sawl blwyddyn, Canolfan Gristnogol Cefn Lea, Dolfor, ger y Drenewydd yw lleoliad yr Ysgol Haf, ac mae'n para am bedwar diwrnod a cheir yno. gyfnodau o addoli a moli, astudiaethau Beiblaidd, cylchoedd gweddi, cyflwyniadau, Gwasanaeth Bendithio a Gwasanaeth Cymun.



Arfon Jones oedd arweinydd yr addoli a'r moliant eleni a'r Gwasanaeth Bendithio hefyd, lle rhoddwyd cyfle i bobl ddod ymlaen i geisio gweddi ac arddodiad dwylo drostynt eu hunain neu eraill, ac i dderbyn eneiniad ag olew os yn dymuno hynny. Dros y blynyddoedd cafodd nifer fawr fendith a iachâd trwy'r gwasanaeth hwn. Cafwyd oedfa arbennig, o dan arweiniad Arfon, eto eleni.

Maes yr astudiaeth Beiblaidd oedd Marc 5.21-43 a Luc 7.1-17. Yn ystod y cylchoedd gweddi cafwyd cyfle i weddïo dros unigolion, gwahanol sefyllfaoedd ar hyd a lled y byd, gwaith a gweinidogaeth yr eglwys fyd-eang, gan gofio yn arbennig am y Cristnogion sydd o dan erledigaeth heddiw. Bu i ni hefyd weddïo dros, a gweinidogaethu i'n gilydd, sy'n rhan hanfodol o'r Ysgol Haf lle rydym yn gallu rhannu â'n gilydd yn agored, gan gynorthwyo ac annog ein gilydd.



Cafwyd cyflwyniad gan Yr Archddiacon Eileen Davies ar waith Tir Dewi. Gyda'r anghenion mawr yn y gymuned amaethyddol, mae llawer yn ei chael hi'n anodd i ymdopi ag ansicrwydd ariannol, tywydd anwadal, newid hinsawdd, unigrwydd, a phroblemau iechyd meddwl. Cofiwn fod Ebeneser wedi cyfrannu at yr elusen y llynedd. Nid gormodedd yw dweud fod bywydau wedi eu harbed o ganlyniad i weinidogaeth Tir Dewi.


Cafwyd dau gyflwyniad gan yr Esgob Stuart Bell – y cyntaf yn seiliedig ar Luc 13.1-9 yn ymdrin â dioddefaint, a'r cwestiwn – lle mae Duw yng nghanol dioddefaint unigolion a byd? Nododd y canlynol

- Mae'r Beibl yn pwysleisio ein bod yn byw mewn byd lle mae dynoliaeth a'r greadigaeth yn syrthiedig

- Creodd Duw fyd o achos ac effaith (cause and effect). Rhoddodd Duw ei orchymynion i ni, ac o dorri'r gorchmynion mae canlyniadau. Allwn ni ddim beio Duw am bob peth – o dorri gorchmynion naturiol, moesol ac ysbrydol Duw, mae canlyniadau yn dilyn.
- Creodd Duw fyd o gariad, a rhoddodd ryddid ewyllys i ni. Gallwn ddewis caru, ond ar yr un pryd, gallwn ddewis casáu, dewis daioni neu ddrygioni. Mae i'n dewisiadau ni eu canlyniadau.

- Lle mae Duw? Dydy e ddim wedi mynd i ffwrdd. Mae e gyda ni bob amser, ac mae Duw yn gweithredu yn ôl ei ddoethineb a'i ewyllys ei hun.

Yn ei ail gyflwyniad aeth Stuart Bell i Rufeiniaidd 8.28-*39 "os yw Duw trosom pwy sydd i'n herbyn. Nid arbedodd Duw ei Fab ei hun…."*



Gallai Duw fod wedi arbed ei Fab, ond dewisodd beidio gwneud hynny er mwyn achub dynoliaeth. Nid camgymeriad oedd y groes ond gweithred bwriadol Duw'r Tad i ddod â maddeuant a bywyd i ni.
Os yw Duw wedi rhoi ei Fab – y peth mwyaf gwerthfawr oedd ganddo, sut y gall beidio ymateb i'n gweddïau ni.

Cafwyd cyflwyniad arbennig a deallus gan Stuart Bell – gellir eu gwylio ar Yr Esgob - Bishop Stuart Bell. Anerchiad 1 - 1st Address (youtube.com)

Priodol oedd cloi yr Ysgol Haf wrth Fwrdd y Cymun o dan arweiniad darpar Lywydd Cymanfa Gyffredinol EBC Miss Glynis Owen, Caerdydd

Mae'r Weinidogaeth hon i fod yn rhan naturiol o weinidogaeth yr eglwys Gristnogol. Mae gweddïo, arddodi dwylo ac eneinio ag olew yn enw Iesu Grist yn unol â'r hyn a welir yn y Testament Newydd ac yng nghomisiwn yr Arglwydd Iesu Grist i'w ddisgyblion ymhob cenhedlaeth. Rhoi yr efengyl ar waith.


***Ifan Roberts***

**_Jack Evans ( Jac y Bala ) – Cristion, Diacon yn Ebeneser, Ffrind a Chwaraewr pêl-droed disglair i Wrecsam, Caerdydd a Chymru_**

Ganwyd Jack yn y Bala ar Ionawr 31ain 1889. Dechreuodd chwarae i'w dîm lleol cyn symud yn ddiweddarach i'r Trallwng. 'Roedd yn aelod o dîm Wrecsam rhwng 1908 ac 1909 ond yna fe anafodd ei ysgwydd a dywedwyd wrtho na fyddai yn gallu chwarae eto. O'r herwydd, rhoddodd y gorau i'r gêm yn broffesiynol ac aeth i weithio fel argraffydd ym Morgannwg gan chwarae i dîm amatur lleol Cwmparc ger Aberdâr wrth aros i'w ysgwydd wella. Ond fe ddaeth i sylw tîm Dinas Caerdydd a Jack oedd y chwaraewr proffesiynol cyntaf i'w arwyddo gan y clwb am y swm anrhydeddus o chwe swllt yr wythnos! Agorwyd Parc Ninian ar Fedi 1af, 1910 a Jack sgoriodd y gôl gyntaf ar y cae'r diwrnod hwnnw mewn gêm gyfeillgar yn erbyn Aston Villa.

Ar ôl gwasanaethu yn y Fyddin yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf dychwelodd i chwarae i Gaerdydd a Chymru. Fe gafodd y llysenw Bala Bang oherwydd cryfder ei ergydion at y gôl ac roedd hefyd yn enwog am ei ddawn ar y bêl a chywirdeb wrth basio'r bêl. Chwaraeodd 358 o gemau i Gaerdydd rhwng 1910 a 1926 gan sgorio 58 o goliau. Yn ogystal chwaraeodd 8 gem i Gymru rhwng 1912 a 1923 mewn cyfnod pan nad oedd llawer o gemau rhyngwladol. Daeth Caerdydd yn ail ym mhrif gynghrair Lloegr ym 1924 a cholli i Sheffield United yn ffeinal Cwpan yr FA yn 1925 gyda Jack yn chwarae yn Wembley o flaen 91,763 o gefnogwyr.

Treuliodd Jack y ddwy flynedd olaf o'i yrfa pêl-droed gyda Bristol Rovers ac yna dychwelodd i Gaerdydd i weithio fel argraffydd i Priory Press, argraffwyr Y Llusern yn 1952. (*Llun ar y dudalen gefn)*



Bu Jack yn aelod ffyddlon a gweithgar o Eglwys Ebeneser Caerdydd am dros 50 o flynyddoedd ac etholwyd yn Ddiacon ym 1954. Mae eitem ar 'youtube' ( Jack Evans, Y Bala Bang ) yn cynnwys cyfraniad gan Eira Jones. 'Roedd Eira yn cofio Jack fel dyn tal a tenau gyda chymeriad hawddgar, addfwyn a thyner. 'Roedd yn Gristion cadarn, yn ffyddlon i'r gwasanaethau a'r Cwrdd Gweddi a gan amlaf yn dod i'r Capel ar ei feic. Gofalodd am ei wraig yn dyner a gofalus yn ystod salwch blin.

**_(Parhad ar dudalen 10)_**




Yn y gyfres hon rydym yn edrych ar weddi er mwyn annog ein gilydd i weddio'n ddyddiol ac i sylweddoli nad rhywbeth sy'n digwydd yn unig mewn oedfa yw gweddi ond ei fod yn rhan allweddol o fywyd pob Cristion. Mewn gweddi y mae 5 elfen yn cael eu cynnwys sef, Addoliad, Cyffes, Gofyn (Petition), Eiriolaeth (Intercession) a Diolchgarwch. Nid yw'r 5 elfen ym mhob gweddi ond wrth i ni weddio yn aml byddwn yn cyffwrdd â phob un ohonynt.

Y tro diwethaf edrychwyd ar ddau air cyntaf gweddi'r Arglwydd sef Ein Tad. Yma fe edrychwn ar weddill y cymal agoriadol. Mae gweddi'r Arglwydd wedi ei chofnodi mewn dau le sef, Luc 11 a Mathew 6 yn y bregeth ar y mynydd. Yma, defnyddiwn fersiwn Efengyl Mathew.

'Ein Tad sydd yn y nefoedd, dŷn ni eisiau i dy enw di gael ei anrhydeddu.

## Ein Tad yn y nefoedd

Mae'r weddi'n cychwyn gyda **Duw** nid gyda **ni** ac yn sicr nid gyda **fi**. Gall ein gweddi yn aml fod yn hunan ganolog lle rydym yn rhoi ein hunain yn gyntaf. Y mae gweddi gyhoeddus yn dechrau gyda Duw yn y canol. Pan yn fyfyrwyr yn y coleg - ambell i nos Sul roedd criw ohonom yn mynd i oedfa gyda'n gilydd. Y rhan fwyaf o Suliau roeddem yn mynd i bregethu i eglwysi ar hyd a lled gogledd Cymru ond weithiau roedd cyfle i wrando ar eraill. Wedi'r oedfaon hynny roeddem yn trafod y bregeth a cheid sylwadau fel, "pregeth dda, effeithiol, gofiadwy." Dro arall rhoddid sylwadau negyddol fel "roedd wedi tynnu'r adnod allan o'i chyd-destun. Nid oedd wedi ystyried y paragraff blaenorol na'r cyd-destun hanesyddol."

Ond y gwir yw ein bod yn aml yn cymryd ein bywydau allan o'r cyd-destun cywir sef ein perthynas gyda Duw. O ganlyniad rydym yn rhoi Duw yng nghyd-destun ein bywydau ni yn hytrach na'n bywydau ni yng nghyd-destun Duw. Mae gweddi'r Arglwydd yn dechrau gyda Duw ac felly mae unrhyw beth sy'n dilyn yn seiliedig ar hynny. Ef yw'r man cychwyn, nid ni.

Nid tad arferol yw Duw ond Tad sydd yn y nefoedd. Mae hyn yn golygu ei fod yn dragwyddol, yn sanctaidd ac yn berffaith. Ond nid yw wedi ei gyfyngu i'r nefoedd ond y mae hefyd yn holl bresennol yn y cread a chyda'i bobl bob amser. Ac wrth gwrs yr addewid yw ein bod ni trwy Iesu yn cael mynediad at Dduw. Mae'r geiriau **ein Tad** yn dangos ei agosatrwydd a'i ofal a'r geiriau **yn y nefoedd** yn awgrymu ei fawredd a'i sancteiddrwydd. Y cymal nesaf yw,
"dyn ni eisiau i dy enw di gael ei anrhydeddu." (beibl.net)

## Sancteiddier dy enw

Yn yr hen ddiwylliant dwyreiniol roedd enw person yn mynegi ei natur a'i personoliaeth. Gwelwn yn aml yn y Beibl pan oedd rhywbeth pwysig yn digwydd i rhywun roeddent yna yn newid eu henwau. Abram i Abraham, Jacob i Israel. Yn yr un modd mae'r enwau roddir ar Dduw yn mynegi ei natur. Elohim, Elyonm Adonai, Iehofa – ydwyf yr hyn ydwyf. Ystyr y cymal hwn yng ngweddi'r Arglwydd ydy ein bod am barchu, addoli, caru, anrhydeddu Duw uwchlaw popeth. A dyma yw dymuniad ei bobl, bod ein Tad nefol yn cael ei anrhydeddu gan y greadigaeth i gyd ar hyd a lled y byd a chan yr holl genhedloedd.

Ac rydym ni ein hunain am anrhydeddu Duw yn ein bywyd a'n haddoliad. Wrth orfoleddu yn ei gariad achubol yn Iesu Grist, wrth sylwi ar ryfeddodau'r cread, wrth werthfawrogi Ei gariad a'i haelioni, wrth fod gyda'n teuluoedd, wrth wneud ein gwaith, wrth hamddena, rydym am anrhydeddu enw Duw. Dyma yw cyd-destun ein bywyd beunyddiol, nid ni ein hunain.

---

***(Parhad o dudalen 8, Jac y Bala)***

Bu Thomas Jones, tad Eira, a Jack yn ffrindiau agos ac Eira yn ymfalchïo ei bod yn gyd-Ddiacon gyda Jack am flwyddyn o 1970 tan marwolaeth Jack yn 1971.

Yn ystod tymor 1964–1965 dechreuais fynd i weld gemau Caerdydd gyda fy nhad, Ambrose Williams, a Jack. 'Roeddem yn parcio tu allan i dŷ Jack yn Northumberland Street a cherdded i Barc Ninian. Cefais eistedd gyda Jack a phrofi o'i wybodaeth a'i frwdfrydedd am bêldroed. Mae fy nghefnogaeth i Dîm Pêl-droed Dinas Caerdydd wedi para dros chwe deg mlynedd ac 'rwyf yn barod wedi prynu tocyn tymor ar gyfer 2024-2025. Braint oedd cael adnabod Jack Evans. Dyn addfwyn a charedig ac arwr i mi a llawer yn y Bala, Caerdydd a thrwy Gymru.



**Tîm Pêl droed Caerdydd 1913-1914**

***Eynon Williams***

## Agor y Llyfr

Cynllun y mae nifer o eglwysi Annibynnol yn rhan ohono erbyn hyn yw Agor y Llyfr, sy'n cael ei gydlynu gan Gymdeithas y Beibl. Y mae'n ffordd ardderchog i eglwysi wasanaethu ysgolion lleol mewn ffordd greadigol gan greu perthynas gyda hwy. Ar hyn o bryd, yn gyffredinol, y mae gwaith plant a theuluoedd yn dalcen caled iawn. Y mae dau reswm o leiaf am hyn, sef 1. Mae'r arfer i rieni a fagwyd mewn eglwysi i ddod a'u plant i'r addoliad wedi darfod i raddau helaeth. 2. Y mae patrymau cymdeithasol y Sul wedi newid yn llwyr. Felly, rhaid i eglwysi feddwl sut i ymateb i hyn, gan addasu eu gweithgareddau i gyd-destun newydd.

Eleni y mae cynllun Agor y Llyfr yn dathlu 25 mlynedd ers ei sefydlu yn Bedford, ac ers hynny bu'r twf yn aruthrol. O'r un tim cychwynnol y mae yn awr bellach 3,389 o dimau ledled y Deyrnas Gyfunol, 9,595 o storïwyr sy'n rhannu straeon gyda phlant mewn oddeutu 3,594 o ysgolion. Mae'r cynllun wedi ei gyfieithu i nifer o ieithoedd ac yn weithredol bellach yn Uganda, Kenya, Ghana, Ewrop, America Ladin a'r Dwyrain Canol.

Dywed Sarah Morris, Swyddog Hyfforddiant a Datblygu Agor y Llyfr De Cymru,

"Mae stori Agor y Llyfr yn y Gymraeg yn mynd yn ôl i tua 2007. Roedd Cynthia Davies wedi bod mewn eglwys yn Ne Lloegr, a chlywed hanes yn fanno am Open the Book, oedd yn defnyddio'r Lion Storyteller Bible. Fe holodd Cynthia Aled Davies, Cyfarwyddwr Cyhoeddiadau'r Gair, a fyddent yn barod i'w gyhoeddi yn y Gymraeg, gan iddi ei hoffi fel llyfr, ond hefyd fel cynllun cyffrous i fynd mewn i ysgolion. Fe aeth Cynthia ati i'w gyfieithu, a chyhoeddwyd Beibl Newydd y Storïwyr yn Gymraeg yn 2008. Erbyn hyn, mae tua 300 o Storiwyr yng Nghymru, gyda oddeutu 40 o dimau Cymraeg eu hiaith."

Yr hyn sy'n digwydd mewn sesiwn Agor y Llyfr yw bod criw o oedolion, gall hynny amrywio o 3 - 10, yn mynd i mewn i ysgol leol i adrodd stori o'r Beibl sy'n para rhyw 5 munud. Y mae canllawiau manwl wedi eu gosod mewn llawlyfr sut i fynd ati ac y mae'r holl adnoddau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Darllen script yw'r rhan fwyaf o'r sesiwn gydag ychydig o actio. Nid oes rhaid dysgu unrhyw beth ar y cof, dim ond gwisgo mewn dillad addas a meimio gan fwyaf.

Erbyn hyn y mae mwy a mwy o ysgolion yn barod i agor eu drysau i'r gweithgarwch hwn, gan ei fod yn eu galluogi i ymgysylltu â'r gymuned leol a hefyd y mae yn gyfrwng hwyliog i addysgu'r plant am Gristnogaeth.

Os nad yw eich eglwys chi yn rhan o hwn, fe fyddai'n syniad i chi ei fabwysiadu. Gellir hefyd gydweithio gydag eglwysi eraill yn eich cymuned er mwyn creu tîm. Os ydych am ragor o gyngor, cysylltwch trwy ebost gyda sarah.morris@biblesociety.org.uk

Ffynhonnau Byw

## Argraffiadau dwy fynychodd noson 'Wings of Glory'.



Noson wych! Platiau di-ri o ddanteithion Colombaidd yn cyrraedd y byrddau – raffl diddi-wedd – bron i bawb ennill rhywbeth dw i'n siŵr. Cwis ar garlam, chwerthin di-baid. Di-olch Catrin Jên am y syniad a'r trefniadau. Arbennig!

***Lis Decaro***

I godi arian at ein helusen eleni aeth criw o'r capel i fwyty Colombiaidd 'Wings of Glory' yn ardal Glanyrafon. Cawsom groeso mawr gan y perchennog, Gloria. Roedd pawb wedi cyffroi a neb wedi cael eu siomi gyda'r wledd a phlatiau o fwyd blasus trwy gydol y noson. Wedi ein sbwylio yn wir!




Rhwng pob cwrs tynnwyd y raffl gyda llawer o wobrwyon, a chwis, gydag Eilir yn fuddugol, Delyth yn ail a Gill yn drydydd.

Roedd yn noson hwyliog a gobeithio caiff un arall ei threfnu cyn bo hir. Diolch i Catrin Jên a phawb drefnodd i gael noson lwyddiannus.

**Joy Dyer**

**Gwasanaethau ar CD**

Os hoffech gael copi o'r gwasanaethau ar y Sul ar CD, cysylltwch gyda Tudur Jones.

**Bwydydd sychion a thun**

Mae elusen Enfys Gobaith yn ddiolchgar iawn o'r bwyd yr ydych wedi eu cyfrannu yn ystod y misoedd diwethaf. Maent yn cael eu rhoi yn gyson i'r anghenus yma yng Nghaerdydd. Diolch i chi am eich haelioni. Byddwn yn casglu bwydydd sychion yn ystod dau Sul cyntaf bob mis. Bydd dau flwch glas yn y cyntedd. Os hoffech gyfrannu, tuniau llysiau, ffrwythau, cig, pysgod, cawl, ffa ayyb; pasta, reis, te, coffi, llaeth UHT byddem yn dra diolchgar. Cysylltwch gyda Tudur Jones.



**Y Ganolfan Glyd**

Byddai'r Tabernacl yn y Ais yn gwerthfawrogi cyfraniadau o siwmperi, sanau a chotiau. Cysylltwch â John Hayes. (john_hayes1@hotmail.com).

**E-bost:** Os hoffech dderbyn ebost wythnosol Ebeneser anfonwch neges at: eben-esercaerdydd1@gmail.com

**Recordiadau**

Gellir gwrando ar holl bregethau Eben-eser ar wefan Soundcloud. Maent yn cael eu gosod yno'n wythnosol. Diolch i Tudur. Gellir gwylio ffrwd byw o oedfa bore Ebeneser ar ein tudalen Facebook ac yna ar Youtube. Diolch yn fawr iawn i Seren Jones am ei help.

**Tîm Digidol**

Rydym yn chwilio am aelodau i helpu gydag ochr ddigidol bywyd Ebeneser. Bellach yn wythnosol y mae elfennau digidol sydd yn rhan bwysig o'n gwaith a'n tystiolaeth. e.e., PowerPoints, ffrwd byw, podlediad, Youtube, Trydar ('X'), Gweplyfr (Facebook), cryno ddisgiau o'r oedfaon a'r wefan.

**Gosod a Gofal**

Hoffem ddiolch i'r holl aelodau sydd yn cynorthwyo gyda gosod popeth yn ei le ar fore Sul. Diolch i Eynon am baratoi'r rota ac i Tudur, John a Petra am eu holl help.

---

## CYFRANIADAU

Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch sydd wedi anfon cyfraniadau at waith Eglwys Ebeneser yn ystod 2023. Gwerthfawrogwn yn fawr iawn eich haelioni tuag at waith hollbwysig yr Arglwydd Iesu trwy gyfrwng Ebeneser. Mae nifer o aelodau bellach yn cyfrannu'n fisol trwy archeb banc. Os nad ydych eto wedi cael cyfle i gyfrannu hoffem eich gwahodd i barhau i gyfrannu at waith yr eglwys, yn ystod 2024, un ai: trwy siec yn daladwy i Eglwys Ebeneser Caerdydd, at y Trysorydd, Eilir Jones, 9 Clos y Bryn, Caerdydd. CF14 6TR. Neu, taliad yn uniongyrchol i gyfrif banc HSBC yr Eglwys – cod sortio 40-16-35, rhif y cyfrif 81042882, gan nodi eich enw fel cyfeirnod.

# Cyfarfodydd Angor

BAY CHURCH
GRANGETOWN

**Diolch i Dduw am:**




- Gyfle i rannu am Angor yng Nghyfarfod Blynyddol yr Undeb yn Nhrefforest.
- Parhad teuluoedd ac unigolion yn dod ac yn cyd-addoli

Cyfres arbennig ar yr Ysbryd Glân gydag Elliot Mayor, Emma Mayor, Cynan Llwyd, Carys Mair Jones ac Arfon Jones yn pregethu.

**Ymunwch gyda ni i weddïo:**

- Am weithwyr/gwirfoddolwyr i ddechrau clwb plant yn yr ardal ym mis Medi

Am wynebau newydd i ymuno ac i rai o'r ardal sydd ddim eto yn nabod Iesu i'w gyfarfod a'i adnabod.

**Dros y misoedd nesaf bydd:**

- Cyfle i wneud rhai digwyddiadau mwy anffurfiol dros yr haf
- ‘Y Bwrdd’ pob trydydd Sul y mis,  sy’n gyfle i ddod at ein gilydd i fwyta a chymdeithasu.




# Calendr

Cynhelir oedfa’r bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD.

Cynhelir oedfa’r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA. .

Cynhelir Angor ar yr ail ar pedwerydd Sul o bob mis yn Bay Church, Corporation Rd, Grangetown.

Pob nos Lun am 7.30 y,h., cynhelir y cwrdd gweddi yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.

## Un oedfa y Sul ym mis Awst

**4 Awst** - 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Ifan Roberts.


**11 Awst** - 10:00yb CEN dan ofal Gwil Jeffs.

**18 Awst** - 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Carys Mair Jones.

**25 Awst** - 10:00yp CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd.
Oedfaon dan ofal Cynan Llwyd.
*Byddwn yn estyn croeso i Eglwysi Minny St, Salem, Y Crwys a’r Tabernacl i ymuno â ni ar y Sul hwn.*

## *Cyfamod Ebeneser*

Rydym yn cyffesu mai yr Arglwydd yn unig yw ein Duw.
Cyfamodwn â‘n gilydd i’w addoli a’i wasanaethu mewn
ysbryd a gwirionedd. Rydym yn addo helpu ein gilydd
mewn cariad i gyd-gerdded yn ôl ei air yng ngholeuni
a nerth yr Ysbryd Glân, gan fod yn ffyddlon i Iesu Grist.
Yn frodyr a chwiorydd i’n gilydd,
gofynnwn am gymorth Duw.





Tudalen flaen Y Llusern,
Gorffennaf 1952,
Cyfrol 19, Rhif 2.



Y llu o groesbwythau gan Eira oedd ar werth yn Drws Agored.



Bore Drws Agored



Jack Evans (Jac y Bala).
Aelod a diacon yn Ebeneser
(1954-1971)